Estyn

estyn.llyw.cymru
estyn.gov.wales

# Esblygu dulliau dysgu cyfunol mewn ysgolion annibynnol

Gorffenaf 2021



## Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar sut mae ysgolion annibynnol prif ffrwd wedi gwerthuso a mireinio dulliau dysgu cyfunol.  Mae'n crynhoi'r canfyddiadau o alwadau ffôn ymgysylltu a wnaed ag 10 o ysgolion prif ffrwd annibynnol rhwng rhan olaf mis Ebrill a hanner cyntaf mis Mai 2021.  Hefyd, mae'r adroddiad yn defnyddio'r dystiolaeth a gasglwyd yn dilyn rhaglen gynharach Estyn o alwadau ymgysylltu a chyfathrebiadau cysylltiedig, fel cyfarfodydd rhanddeiliaid.  Mae'r adroddiad hwn wedi'i seilio ar wybodaeth a drafodwyd yn ystod sgyrsiau ffôn gyda phenaethiaid ac uwch arweinwyr yr ysgolion ac mae'n canolbwyntio ar:

- y broses fonitro a ddefnyddiwyd i fyfyrio ar eu darpariaeth dysgu cyfunol
- heriau y maent wedi'u hwynebu
- newidiadau y maent wedi'u gwneud.

Mae' adroddiad yn cynnwys cameos o arfer sy'n dod i'r amlwg o ran datblygu, monitro a gwerthuso dulliau dysgu o bell a dysgu cyfunol.

Mae'r sector annibynnol yn amrywiol.  Mae 37 o ysgolion annibynnol prif ffrwd yng Nghymru.  Mae'r ysgolion hyn yn darparu addysg ar gyfer rhyw 9,200 o ddisgyblion sy'n amrywio o oedran meithrin i 18 oed.  Rhyw 2% o'r disgyblion yng Nghymru yw hyn.  Mae'r ysgolion yn amrywio'n fawr o ran maint, ac maent yn berchen naill ai i berchennog unigol neu grŵp.

## Contents


**Cefndir a heriau cychwynnol ........ 1**

Cysyniadau sy'n sail i addysgu a dysgu ar-lein ........ 1

Diffinio dysgu cyfunol........ 1

**Prif negeseuon ........ 3**

**Canfyddiadau manwl a chameos........ 6**

Camau cychwynnol y cyfnod clo ........ 6

Monitro, gwerthuso ac addasu addysgu a dysgu ar-lein ........ 7

Esblygu addysgeg – drwy'r ail gyfnod clo........ 8

Addysgeg technoleg gwybodaeth a chyfathrebu ........ 9

Heriau penodol wrth gyflwyno meysydd o'r cwricwlwm gan ddefnyddio dull cyfunol........ 11

Mentrau'r cwricwlwm ........ 12

Olrhain cynnydd ac asesu ........ 13

Gwerthuso effaith dysgu cyfunol ar gynnydd disgyblion........ 14

Nodi bylchau mewn dysgu a mynd i'r afael â nhw........ 15

Arholiadau cyhoeddus........ 17

Heriau y mae dysgu ar-lein yn eu creu i grwpiau penodol o ddysgwyr .............. 19
Myfyrdodau ar gynnydd yn ystod y flwyddyn ddiweddaf a dulliau dysgu sy’n dod i’r amlwg .......... 22
**Atodiad 1: Sail y dystiolaeth .......... 24**
**Atodiad 2: Prociau i ysgolion annibynnol prif ffrwd eu hystyried wrth fyfyrio ar ddysgu o bell a’i fireinio .......... 25**
Addysgu a dysgu .......... 25
Prosesau monitro .......... 25
Cefnogi arfer broffesiynol .......... 26
**Cyfeiriadau .......... 27**

## Cefndir a heriau cychwynnol

Yn y rhagair i'w Adroddiad Blynyddol 2019-2020, dywedodd Meilyr Rowlands PAEM, (Estyn 2020, tud.4), 'daeth misoedd olaf blwyddyn academaidd 2019-2020 â heriau i addysg yng Nghymru nas gwelom mo'u tebyg mewn cenedlaethau. Cafwyd nifer o heriau, a'r rheiny'n rhai cymhleth ac annisgwyl. Newidiodd pandemig y COVID-19 fywydau pobl, cafodd effaith aruthrol ar ein heconomïau, ac amharwyd yn fawr ar systemau addysg ledled y byd ac yng Nghymru.' Mae rhagair y Prif Arolygydd a'r adroddiad yn cynnig disgrifiad cychwynnol o'r modd yr oedd darparwyr addysg a hyfforddiant ar draws yr holl gyfnodau a sectorau wedi ymdopi â'r cyfnod clo cychwynnol, a sut yr aethant ati i gynorthwyo dysgwyr trwy gyfleoedd dysgu o bell a dysgu cyfunol.

### Cysyniadau sy'n sail i addysgu a dysgu ar-lein

Roedd canllaw'r Sefydliad Gwaddol Addysgol 'Education Endowment Foundation guide to supporting school planning: A tiered approach to 2021' (2020, tud.6), a gyhoeddwyd yn Rhagfyr 2020, yn pwysleisio 'bod y dystiolaeth orau sydd ar gael yn awgrymu mai addysgu gwych yw'r arf pwysicaf sydd gan ysgolion i wella deilliannau ar gyfer eu disgyblion'. Mae'r adroddiad yn dweud bod hyn yn wir cyn pandemig y Covid-19 ac y byddai'n parhau i fod yn wir trwy gydol y flwyddyn academaidd hon'.

Ceir llawer iawn o waith ysgrifenedig ac ymchwil ynglŷn â'r gwahanol gysyniadau sy'n sail i addysgu a dysgu ar-lein, gan gynnwys dysgu o bell a dysgu cyfunol. Fodd bynnag, y brif her, fel gyda phob addysgu a dysgu, yw dylunio'r dysgu mewn ffordd sy'n golygu y gall dysgwyr ymgysylltu'n weithgar â'r pwnc, ac y gall yr athro ddatblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau'r dysgwr trwy ddysgu annibynnol a rhyngweithio â chyfoedion. I gyflawni hyn, mae'n bwysig bod yr athro'n dylunio addysgu a dysgu i fanteisio ar y dechnoleg, ond heb adael i'r dechnoleg bennu'r ffordd y mae'r athro'n ymgysylltu â'r dysgwr.

### Diffinio dysgu cyfunol

Ar ei symlaf, cyfuniad o ddysgu anghydamserol a chydamserol yw dysgu cyfunol.

**Dysgu anghydamserol** - mae'n galluogi'r dysgwr i ymgysylltu'n fanwl â deunyddiau ynglŷn â'r pwnc neu feysydd dysgu y mae'n eu hastudio yn ei amser ei hun ac ar ei gyflymder ei hun. Yn yr achosion gorau, gall gynnwys ystod o ymarferion, gweithgareddau, fideos, a phodlediadau sy'n helpu'r dysgwr i ymgysylltu'n llwyddiannus â'r deunyddiau.

**Dysgu cydamserol** - mae'n cyfeirio at grŵp o ddysgwyr yn gweithio gyda'u hathro am gyfnod penodedig ar-lein. Gallai hyn gynorthwyo athrawon i wirio lles dysgwyr, i helpu dysgwyr ddatrys unrhyw anawsterau yn eu dysgu ac i asesu dealltwriaeth dysgwyr o'r gwaith yn anffurfiol.

**Addysg a dysgu wyneb yn wyneb ar y safle** - mae'n cyfeirio at wersi grŵp cyfan neu gymorth un i un – sy'n digwydd wyneb yn wyneb ar safle'r ysgol. Hwn fydd y dull addysgu pwysicaf o hyd i'r holl ddysgwyr. Mae'r cyfnod hwn o ddysgu cyfunol yn allweddol i helpu dysgwyr ddeall cysyniadau allweddol y gwaith y byddant yn mynd i'r afael ag ef yn y cyfnodau dysgu o bell, a'r medrau y bydd angen i ddysgwyr eu defnyddio i gwblhau'u dysgu yn llwyddiannus.

**Dysgu cyfunol** - mae’n arbennig o effeithiol pan fydd addysgu a dysgu o bell ac wyneb yn wyneb wedi’u hintegreiddio, eu strwythuro’n dda ac yn canolbwyntio ar y dysgwr.  Mae ymchwil yn awgrymu bod dull dysgu cyfunol llwyddiannus yn cynnwys cynllunio’r ddarpariaeth dysgu yn yr ysgol a’r ddarpariaeth dysgu o bell ochr yn ochr â’i gilydd.

## Prif negeseuon

Creodd cyfnodau cychwynnol y pandemig ym Mawrth 2020 ansicrwydd sylweddol i staff a disgyblion yn yr holl ysgolion annibynnol. I wrthsefyll yr ansicrwydd hwn, ceisiodd arweinwyr ddarparu eglurder a chadarnhad. Aeth llawer o ysgolion annibynnol ati i bennu gweledigaeth a map ffordd gyda'r prif amcan o hyrwyddo dyheadau uchel a chynnal safonau dysgu uchel. Mewn llawer o achosion, roedd y dull hwn yn cynnwys rhaglen lawn o addysgu a dysgu ar-lein yn seiliedig ar yr amserlen ysgol arferol, gydag asesiadau rheolaidd er mwyn monitro ansawdd ac effeithiolrwydd dysgu.

Yn raddol, gwelodd arweinwyr ei bod yn hollbwysig sefydlu rhaglen gynaliadwy yn hytrach nag atgynhyrchu amserlen lawn yn unig. Yn y rhan fwyaf o ysgolion, esblygodd y rhaglen hon yn ystod y cyfnod clo cyntaf, ac erbyn yr ail gyfnod clo ar ddiwedd tymor yr hydref, roedd patrwm a strategaeth wedi'u sefydlu.

Trwy gydol y pandemig, mae arweinwyr yn adrodd bod y broses o adolygu a mireinio dulliau addysgu a dysgu ar-lein wedi bod yn hanfodol i helpu nodi agweddau ar addysgu a dysgu sy'n llwyddiannus, yn ogystal â'r meysydd hynny y gellir eu cryfhau. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn cyfeirio at agweddau esblygol ar ddarpariaeth y byddant yn eu cynnal neu'u haddasu yn y dyfodol. Mae penaethiaid yn adrodd y bu'r flwyddyn ddiwethaf yn 'gyfle gwerthfawr i ddysgu amdanom ni'n hunain' ac i gadw dulliau dysgu, strategaethau a medrau penodol, ac adeiladu arnynt.

Yn ystod y cyfnod clo cyntaf, addasodd llawer o ysgolion amserlenni, mireiniwyd strwythur gwersi, ac addaswyd cynnwys a chwmpas testunau penodol er mwyn eu cysoni'n fwy addas â dysgu ar-lein. Ni wnaeth ychydig o ysgolion gynnig gwersi wedi'u ffrydio'n gydamserol, yn enwedig ar gyfer disgyblion cynradd iau, ac roedd yn well ganddynt gynhyrchu gwersi wedi'u recordio a darparu tasgau ac adnoddau addas i gefnogi'u dysgu.

Mae arweinwyr yn nodi bod athrawon mewn dosbarthiadau cynradd wedi bod yn ochelgar yn gyffredinol ynglŷn â ffrydio gwersi cydamserol yn fyw. Ar gyfer disgyblion iau, credant eu bod yn angenrheidiol cyflawni cydbwysedd addas o ddysgu anghydamserol a chydamserol er mwyn rheoli graddfa amser ar sgrin yn rhannol. Yn y cyfryw amgylchiadau, mae arweinwyr, yn gyffredinol, wedi mabwysiadu dull esblygol o addysgu a dysgu.

Adroddir gan arweinwyr bod camau cychwynnol y cyfnod clo wedi cyflwyno heriau sylweddol i lawer o ysgolion o ran sicrhau bod gan yr holl ddisgyblion a'r staff fynediad at ddyfeisiau ac adnoddau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) digonol ac addas i ddarparu'r sylfeini angenrheidiol ar gyfer addysgu a dysgu. Yn hanfodol, gan nad oedd gan ysgolion annibynnol fynediad i'r llwyfannau a'r apiau yn Hwb, bu'n rhaid i arweinwyr benderfynu pa lwyfannau oedd yn cynnig yr ymarferoldeb gorau er mwyn bodloni anghenion dysgu gwahanol disgyblion ym mhob grŵp oedran.

Mae arweinwyr ysgolion yn pwysleisio bod dulliau newydd wedi mynnu llawer iawn o ddysgu proffesiynol ar gyfer staff. Mae hyn wedi cynnwys darpariaeth allanol, gan gynnwys rhywfaint o gydweithio, er enghraifft, gydag ysgolion cyswllt annibynnol

eraill, ond cyfnewid arfer dda yn fewnol a wnaed yn bennaf. Yn y rhan fwyaf o ysgolion, roedd arweinwyr yn ymwybodol o ystod eang cymwyseddau digidol staff. Er bod ychydig o staff yn gallu rhoi cysyniadau a dulliau newydd ar waith yn gyflym, roedd angen mwy o gymorth ar rai eraill.

Yn ystod y pandemig, mae arweinwyr o'r farn fod bron yr holl athrawon wedi addasu'u harfer a'u haddysgeg a'u bod wedi ymgyfarwyddo ag ystod o lwyfannau dysgu. Mae llawer o benaethiaid yn adrodd eu bod yn teimlo bod y cyfnod clo wedi gwella agweddau ar addysgu. Er enghraifft, mae llawer o staff wedi datblygu ystod o fedrau a chymwyseddau newydd i addysgu o bell a fydd yn hynod werthfawr yn y tymor canolig a'r tymor hir, ac a fydd yn dod yn agwedd gyffredin ar arfer addysgol.

Mewn llawer o ysgolion, mae trefniadau sicrhau ansawdd wedi parhau trwy gydol y pandemig, ond mae arweinwyr yn adrodd eu bod wedi addasu a mireinio natur a phwrpas y gweithgareddau hyn. O ganlyniad i weithgareddau sicrhau ansawdd, mae arweinwyr yn adrodd y bu mwy o gysondeb yn y ddarpariaeth, a bod strwythur a natur dysgu cyfunol wedi esblygu. Er enghraifft, credant fod llai o fewnbwn gan athrawon a mwy o gyfleoedd i ddisgyblion weithio'n annibynnol, yn ogystal â gostyngiad mewn amser ar sgrin, trwy gynnwys gweithgareddau amgen.

Mewn llawer o achosion, mae penaethiaid yn adrodd bod staff yn defnyddio ystod o offer asesu i fonitro ansawdd gwaith disgyblion ar-lein. Mae arweinwyr yn adrodd bod llawer o athrawon wedi ymgorffori ystod o strategaethau yn eu gwersi ar-lein i ennyn diddordeb disgyblion a darparu adborth uniongyrchol i gefnogi dysgu. Mae'r rhain yn cynnwys sgyrsiau ar-lein 'pwysau isel', cwisiau, tocynnau gadael sesiynau llawn, ystafelloedd ymneilltuo grwpiau bach ar gyfer trafodaethau a gweithgareddau asesu cyfoedion.

Mae arweinwyr mewn llawer o ysgolion yn adrodd bod disgyblion yng nghyfnod allweddol 4 a'r chweched dosbarth yn hyderus yn gyffredinol ynglŷn â'u cynnydd yn ystod y pandemig. Mae arweinwyr o'r farn fod y disgyblion hyn wedi derbyn cymorth effeithiol i ddefnyddio TGCh, a'u bod, efallai, yn fwy hunanddibynnol na chyfoedion iau. Mae athrawon yn dweud bod y rhan fwyaf o ddisgyblion wedi ymgysylltu'n frwdfrydig ac wedi mabwysiadu agwedd adeiladol at eu gwaith. Mae'n well gan leiafrif o ddisgyblion agweddau penodol ar ddysgu ar-lein gan nad oes llawer i dynnu'u sylw, a gallant ganolbwyntio'n llwyr ar weithgareddau dysgu.

Awgrymir gan arweinwyr fod y sefyllfa wedi bod yn fwy heriol i ddisgyblion cyfnod allweddol 3 a'r rheiny mewn dosbarthiadau cynradd. Oherwydd cynnydd mewn gweithgarwch ar-lein, mae arweinwyr yn cyfeirio at fod plant iau yn cael problemau gyda'u sgiliau echddygol manwl, eu llawysgrifen a'u sillafu, er eu bod yn adrodd bod llawer o ddisgyblion wedi gwneud cynnydd cryf gyda'u medrau darllen gan eu bod wedi cael eu hannog a'u cefnogi i ddarllen gartref.

Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae athrawon wrthi'n canolbwyntio ar fonitro perfformiad, atgyfnerthu gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion, ac addasu cynlluniau gwaith a chynlluniau gwersi i fynd i'r afael ag unrhyw fylchau sy'n dod i'r amlwg mewn addysgu a dysgu. Mewn rhai meysydd, mae arweinwyr yn adrodd mai dim ond 'gwybodaeth arwynebol' sydd gan ddisgyblion a bod angen ei hatgyfnerthu i sicrhau dealltwriaeth 'ddofn'. Mewn ychydig o ysgolion, mae arweinwyr llythrennedd a

rhifedd wedi nodi amcanion allweddol dal i fyny, a deilliannau dysgu hanfodol cyn diwedd y flwyddyn ysgol.

Gwelodd llawer o ysgolion yn gynnar ei bod yn annhebygol y byddai arholiadau cyhoeddus yn cael eu cynnal yn unol â'r arfer eleni.  Serch hynny, mae arweinwyr yn adrodd eu bod o'r farn fod gan ysgolion gyfrifoldeb i helpu disgyblion baratoi ar gyfer cam nesaf eu haddysg.  Cred arweinwyr fod hyn yn cynnwys rhyw fath o 'arholiad â mwy yn y fantol' i helpu disgyblion ddatblygu'r medrau a'r hyder angenrheidiol i sefyll arholiadau yn y dyfodol.  Mae gan yr ysgolion hyn bolisïau a dulliau sefydledig y cred arweinwyr eu bod yn atgynhyrchu amodau arholiad nodweddiadol, cyn belled ag y bo modd, er mwyn helpu pennu graddau ym mhob pwnc.

Yn gyffredinol, mae penaethiaid yn adrodd bod disgyblion yn deall sut y bydd y broses o ddyfarnu graddau TGAU a Safon Uwch yn cael ei phennu, a chredant fod llawer o ddisgyblion yn hyderus y byddant yn cyflawni'r graddau sy'n cyfateb i'w galluoedd, a'u bod wedi'u paratoi'n dda ar gyfer 'symud ymlaen i'r cam nesaf yn eu haddysg'.

Mae llawer o arweinwyr yn adrodd bod cynnal parhad dysgu ar gyfer disgyblion preswyl tramor yn creu heriau sylweddol.  Mae hyn yn arbennig o wir mewn perthynas â gofynion cwarantin i ddisgyblion sy'n dychwelyd i'r Deyrnas Unedig, ond hefyd o ran darparu llety a rhaglen o weithgareddau ar gyfer y rhai sydd wedi aros yma trwy gydol y flwyddyn.  Mae ysgolion â disgyblion preswyl tramor wedi defnyddio ystod o strategaethau, gan gynnwys addasiadau i'r diwrnod ysgol a gweithgareddau ymestyn i gynorthwyo'r disgyblion hyn pan fydd yn ofynnol iddynt gael eu gosod dan gwarantin.

# Canfyddiadau manwl a chameos

## Camau cychwynnol y cyfnod clo

Fe wnaeth cyfnodau cychwynnol y pandemig ym Mawrth 2020 greu ansicrwydd sylweddol i staff a disgyblion yn yr holl ysgolion annibynnol. I wrthsefyll yr ansicrwydd hwn, ceisiodd arweinwyr ddarparu eglurder a chadarnhad. Aeth llawer o ysgolion annibynnol ati i bennu gweledigaeth a map ffordd gyda'r prif amcan o hyrwyddo dyheadau uchel a chynnal safonau dysgu uchel. Mewn llawer o achosion, roedd y dull hwn yn cynnwys rhaglen lawn o addysgu a dysgu ar-lein yn seiliedig ar yr amserlen ysgol arferol, gydag asesiadau rheolaidd er mwyn monitro ansawdd ac effeithiolrwydd dysgu. Fel rhan o'r rhaglen hon, darparodd staff ganllawiau wythnosol o gronfa o adnoddau i ddisgyblion er mwyn cynorthwyo'u dysgu. Yn ogystal, creodd yr ysgolion hyn sianelau ar gyfer disgyblion, rhieni a staff i ddarparu adborth a chael cymorth. Mae arweinwyr yn adrodd bod y dull hwn wedi helpu pennu disgwyliadau clir a'i fod wedi cyfrannu'n sylweddol at barhad dysgu llwyddiannus.

Mewn llawer o ysgolion, roedd y pwyslais cychwynnol mewn dosbarthiadau cynradd ar lythrennedd a rhifedd, gyda'r rhan fwyaf o'r boreau'n cael eu neilltuo i'r meysydd dysgu hyn. Roedd yr ymagwedd at addysgu ar-lein yn amrywio rhwng ysgolion, gydag addasiadau'n cael eu gwneud i'r amserlen neu strwythur gwersi. Mae'r enghreifftiau isod yn dangos sut yr addasodd dwy ysgol eu hamserlenni.

Ar ddechrau'r cyfnod clo, roedd **Oakleigh House,** sy'n ysgol gynradd yn Abertawe, yn ymroddedig i ddarparu profiad addysgol eang ar-lein i ddisgyblion i adlewyrchu'r rhaglen arferol mor fanwl ag y bo modd. Bob bore, roedd y ffocws ar Saesneg a mathemateg, ac yn y prynhawniau, roedd pwyslais ar waith prosiect yn seiliedig ar y dyniaethau, drama a'r celfyddydau. Roedd y rhaglen hon hefyd yn cynnwys addysg gorfforol a cherddoriaeth yn ogystal â gwersi addysg bersonol, gymdeithasol ac iechyd yn wythnosol, a oedd, yn gyffredinol, yn cynnwys trafodaethau byw ar-lein yn ogystal â gwaith ysgrifenedig cysylltiedig. Yn ogystal, trefnodd staff wasanaethau ac amser dosbarth o bell er mwyn helpu ail-greu profiadau cymdeithasol cyn belled ag y bo modd.

Yn **Ysgol y Gadeirlan**, sy'n ysgol ddydd pob oed yng Nghaerdydd, er y cadwyd yr amserlen lawn ar gyfer y diwrnod o 9.00-15.30, aeth athrawon ati i addasu cynlluniau gwersi i sicrhau ymgysylltiad disgyblion a hyrwyddo dysgu effeithiol. Mae arweinwyr yn adrodd eu bod wedi pennu disgwyliadau clir ar gyfer yr holl wersi ar-lein, gan gynnwys gofyniad bod athrawon yn darparu cyflwyniad byr 10 munud i osod y cyd-destun ar gyfer dysgu, egluro egwyddorion perthnasol ac amlinellu gweithgareddau penodol. Dilynwyd hyn gan sesiwn 20 munud lle'r oedd disgyblion yn gweithio'n annibynnol all-lein, a dosbarth llawn terfynol o 10 munud i atgyfnerthu a chrynhoi'r dysgu. Roedd disgwyliad y byddai'r holl waith yn cael ei gyflwyno gydag athrawon yn darparu adborth. Dywedodd arweinwyr fod y dull hwn yn llwyddiannus eithriadol am fod disgyblion yn ymgysylltu'n dda, yn enwedig yn ystod y cyfnod 20 munud o waith annibynnol. Nododd yr arweinwyr hefyd fod ansawdd adborth uniongyrchol wedi gwella'n sylweddol ac roedd athrawon yn gallu monitro gwaith parhaus a chynnig cyngor a chymorth perthnasol.

## Monitro, gwerthuso ac addasu addysgu a dysgu ar-lein

Trwy gydol y pandemig, mae arweinwyr yn adrodd eu bod wedi bod yn adolygu a mireinio dulliau addysgu a dysgu ar-lein. Maent yn pwysleisio bod y broses hon wedi bod yn hanfodol i helpu nodi agweddau ar addysgu a dysgu sy'n llwyddiannus, yn ogystal â'r meysydd hynny y gellir eu cryfhau. Er enghraifft, yn ystod y cyfnod clo cyntaf, sylweddolodd llawer o arweinwyr ei bod yn hollbwysig sefydlu rhaglen gynaliadwy yn hytrach nag atgynhyrchu amserlen lawn yn unig.

Mae gwrando ar ddisgyblion a darparu cyfleoedd i rieni gynnig adborth, codi pryderon a gofyn am arweiniad, lle bo angen, wedi bod yn fuddiol o ran cyfrannu at gymorth rhieni i'w plant, ac i'w hyder yng ngwaith yr ysgol. Mae hefyd wedi helpu arweinwyr i fyfyrio ar ansawdd ac effeithiolrwydd addysgu a dysgu ac i fireinio dulliau. Yn y rhan fwyaf o ysgolion, esblygodd y rhaglen hon yn ystod y cyfnod clo cyntaf, ac erbyn yr ail gyfnod clo ar ddiwedd tymor yr hydref, roedd patrwm a strategaeth wedi'u sefydlu.

Mewn llawer o ysgolion, mae trefniadau sicrhau ansawdd wedi parhau trwy gydol y pandemig er bod arweinwyr yn adrodd eu bod wedi addasu a mireinio natur a phwrpas y gweithgareddau hyn. Mewn ychydig o ysgolion, penderfynodd uwch arweinwyr i beidio ag 'eistedd i mewn' ar wersi cydamserol ar-lein oherwydd eu bod yn teimlo y gallai hyn ychwanegu pwysau a chreu gorbryder i staff mewn cyfnod a oedd eisoes yn un heriol.

Fel arall, mae arweinwyr yn pwysleisio bod y pandemig a natur esblygol dysgu wedi cynyddu pwysigrwydd trefniadau sicrhau ansawdd cadarn, er enghraifft, trwy broses o 'alw heibio' ac adolygu gwersi a recordiwyd. Mae'r arweinwyr hyn yn dweud bod cymorth dilynol wedi'i ddarparu i staff, lle bo angen.

Mewn ychydig o ysgolion, mae'r rhan fwyaf o wersi wedi'u recordio'n rhannol at ddibenion sicrhau ansawdd. Lle gwnaed hyn, mae arweinwyr wedi mabwysiadu dull 'llai manwl' a chefnogol gan iddynt sylweddoli bod pryderon gan lawer o'r staff ynglŷn â'u cymwyseddau TGCh. Roedd y ffaith bod rhai o'r staff yn ymwybodol hefyd fod rhai rhieni yn cyfranogi mewn dosbarthiadau ar lein yn ychwanegu at eu pryderon.

Yn ystod tymor yr hydref, bu modd i uwch arweinwyr yn **Ysgol Howell,** sy'n ysgol ddydd pob oed yng Nghaerdydd, gynnal llawer o 'deithiau dysgu' i alluogi cynnal arsylwadau byr o addysgu a dysgu. Ymweliadau cefnogol oedd y rhain i bob pwrpas, a'u bwriad oedd nodi arfer dda y gellid ei hyrwyddo'n ehangach ar draws yr ysgol. Oherwydd bod y cyd-destun yn newid yn gyflym yn ystod y cyfnod hwnnw, roedd yr arsylwadau hyn yn cwmpasu ystod o sesiynau hybrid. Yn ogystal a bod yr athro a'r disgyblion yn yr ysgol gyda'i gilydd, roedd y rhain yn cynnwys sefyllfaoedd lle'r oedd athrawon yn yr ystafell ddosbarth tra bod disgyblion ar-lein gartref, neu fel arall pan oedd staff gartref yn ynysu ac roedd disgyblion yn eu hystafelloedd dosbarth. Yn y cyfryw amgylchiadau, cyfrannodd arsylwadau gwersi at 'sgwrs barhaus' yr ysgol ynglŷn ag addysgu a dysgu. Gan fod rhan fwyaf o'r gwersi'n cael eu recordio, roeddent yn darparu tystiolaeth fuddiol o ddatblygu dulliau a strategaethau, ond hefyd yn cynorthwyo arweinwyr i fynd i'r afael ag unrhyw feysydd pryder ynglŷn ag agweddau ar addysgu ac asesu.

I ryw raddau, mae uwch arweinwyr wedi gweld ei bod hi'n haws nag o'r blaen i fonitro agweddau ar addysgu gan eu bod naill ai'n gallu mewngofnodi i wersi byw am gyfnod byr neu'n edrych ar wersi wedi'u recordio, a darparu adborth defnyddiol. Mae hyn wedi helpu lleihau elfen o fraw y mae rhai athrawon yn ei deimlo yn sgil presenoldeb aelod o'r tîm arweinyddiaeth yn eu hystafell ddosbarth. Mae ychydig o benaethiaid yn dweud bod nifer o staff wedi ailrecordio gwersi anghydamserol ar ôl myfyrio'n bersonol ar yr ansawdd.

O ganlyniad i weithgareddau sicrhau ansawdd, mae arweinwyr yn adrodd bod mwy o gysondeb wedi bod yn y ddarpariaeth a bod strwythur a natur dysgu cyfunol wedi esblygu. Er enghraifft, maent o'r farn bod llai o fewnbwn gan athrawon a mwy o gyfleoedd i ddisgyblion weithio'n annibynnol, yn ogystal â lleihad yn yr amser ar sgrin, trwy gynnwys gweithgareddau amgen. Mewn un ysgol pob oed, yn dilyn arolygon disgyblion ynglŷn ag agweddau ar addysgu a dysgu yn ystod y cyfnod clo cyntaf, addasodd athrawon wersi yn yr adran disgyblion hŷn i gynnwys rhwng 20 a 25 munud o egluro ac arweiniad cydamserol, gyda'r disgyblion wedyn yn gweithio'n annibynnol ar y tasgau cysylltiedig.

## Esblygu addysgeg – drwy'r ail gyfnod clo

Rhagwelodd y rhan fwyaf o ysgolion y byddai ail gyfnod clo, ac aethant ati i baratoi'n effeithiol ar ei gyfer, er enghraifft rhoi strategaethau a gweithdrefnau arfaethedig ar brawf yn ystod y cyfnod atal byr ym mis Hydref.

Yn ystod y cyfnod clo cyntaf, addasodd llawer o ysgolion amserlenni, mireiniwyd strwythur gwersi, ac addaswyd cynnwys a chwmpas testunau penodol er mwyn eu cysoni'n fwy addas â dysgu ar-lein. Ni wnaeth ychydig o ysgolion gynnig gwersi wedi'u ffrydio'n gydamserol, yn enwedig ar gyfer disgyblion cynradd iau, ac roedd yn well ganddynt gynhyrchu gwersi wedi'u recordio a darparu tasgau ac adnoddau addas i gefnogi'r dysgu. Yn y cyfnod clo mwyaf diweddar, yn rhannol yn sgil y ffaith fod gan fwy o ddisgyblion y cyfnod sylfaen a chyfnod allweddol 2 fynediad at ddyfais bersonol ac i ymateb i ddymuniadau rhieni, symudodd llawer o ysgolion yn syth at addysgu cydamserol ar-lein. Gwnaethant hyn hefyd oherwydd, mewn ychydig o ysgolion, roedd rhieni'n teimlo bod eu plant wedi cwblhau'u gwaith yn gyflym yn aml ac nad oeddent wedi cael eu herio na'u gwthio'n ddigonol i gynhyrchu gwaith o ansawdd uchel addas.

Yn ysgol gynradd **Oakleigh House**, mae'r pennaeth yn nodi bod llawer o rieni wedi cefnogi cyflwyno dysgu cydamserol ar-lein oherwydd eu bod o'r farn y byddai'n helpu eu plant i ffocysu a chanolbwyntio'n fwy effeithiol ar eu gwaith. Yn yr ysgol hon, roedd pwyslais penodol ar ddatblygu medrau darllen gan ddefnyddio rhaglen a llyfrgell ar-lein, ac roedd disgyblion yn cael sesiynau darllen un i un unigol o ryw 15 munud gyda'u hathro. Mae arweinwyr yn adrodd mai un o fanteision y dull hwn oedd bod yr ysgol yn gallu cael cyswllt rheolaidd gyda rhieni, er enghraifft i drafod lles a chynnydd eu plentyn, ac unrhyw gymorth y gallai fod ei angen arnynt.

Mae arweinwyr yn yr ysgol hon o'r farn fod rhannu byrddau gwyn digidol wedi cyfrannu at welliant yn ansawdd yr addysgu a'r dysgu, gan alluogi athrawon i lanlwytho adnoddau ac i ddisgyblion gael mynediad i'r gwaith. Fel rhan o'r broses hon, mae staff wedi defnyddio llwyfannau ac offer penodol sy'n personoli cynnwys dysgu, cwestiynau a llwybrau ar gyfer pob plentyn, tra'n galluogi staff i gasglu

gwybodaeth werthfawr am eu disgyblion, er enghraifft, trwy asesiadau diagnostig. Mae arweinwyr yn adrodd bod y dull hwn wedi helpu plant i ymgysylltu a'u galluogi i weithio'n annibynnol, gan sicrhau hefyd fod athrawon ar gael i ateb unrhyw gwestiynau a allai fod gan ddisgyblion, a darparu cymorth angenrheidiol. Yn yr un modd, defnyddiodd staff a rhieni lwyfan arbennig i gynorthwyo disgyblion meithrin i greu cofnod o brofiadau, datblygiad a thaith ddysgu'r plentyn.

Mae **OneGlobal School,** sydd â champysau yn Abertawe a'r Drenewydd, yn gweithredu system rheoli cyrsiau sy'n cefnogi addysgu a dysgu ar-lein ar draws teulu o ysgolion yn y Deyrnas Unedig. Mae'r llwyfan hwn yn cefnogi dull dysgu hunangyfeiriedig ble mae'r plentyn yn bwrw ati ohono'i hun ac yn cymryd cyfrifoldeb am ei ddysgu ei hun. Mae arweinwyr yn adrodd bod y pandemig COVID-19, yn anochel, wedi cyflymu'r broses hon. Mae'r dysgu hwn wedi'i seilio ar aseiniad penodol, ac mae'n cynnwys esboniad, arweiniad a chymorth gan yr athro, ynghyd â chyfleoedd i ddisgyblion wneud ymchwil, gweithio'n annibynnol ac ar y cyd â disgyblion eraill. Mae arweinwyr yn awgrymu bod disgyblion yn cael eu hannog i feddwl yn feirniadol, dadansoddi data a gwerthuso sefyllfaoedd yn wybodus.

Mae arweinwyr o'r farn fod y dull hwn wedi esblygu'n dda, yn rhannol trwy barodrwydd i arbrofi. Yn genedlaethol, mae arweinwyr pwnc tîm canolog wedi cynhyrchu cyrsiau pwrpasol ynghyd ag adnoddau a deunyddiau cymorth, fel cwisiau a chwestiynau allweddol i ymgysylltu â disgyblion a chreu diddordeb.

## Addysgeg technoleg gwybodaeth a chyfathrebu

Mae arweinwyr yn adrodd bod camau cynnar y cyfnod clo wedi cyflwyno heriau sylweddol i lawer o ysgolion o ran sicrhau bod gan yr holl ddisgyblion a'r staff fynediad at ddyfeisiau ac adnoddau TGCh digonol ac addas i ddarparu'r sylfeini angenrheidiol ar gyfer addysgu a dysgu. Bu'n rhaid i arweinwyr benderfynu pa lwyfannau oedd yn cynnig yr ymarferoldeb gorau er mwyn bodloni anghenion dysgu gwahanol disgyblion ym mhob grŵp oedran.

Er bod mynediad at adnoddau addas yn hanfodol, mae'r graddau y mae'r cymwyseddau angenrheidiol gan staff, disgyblion a rhieni i wneud y defnydd mwyaf effeithiol o'r adnoddau hyn lawn mor bwysig. Yn y rhan fwyaf o ysgolion, roedd arweinwyr yn ymwybodol o ystod eang cymwyseddau digidol staff. Er bod ychydig o staff wedi rhoi cysyniadau a dulliau newydd ar waith yn gyflym, roedd angen mwy o gymorth ar rai eraill. Mae arweinwyr ysgolion yn pwysleisio bod rhoi dulliau newydd ar waith wedi mynnu llawer iawn o ddysgu proffesiynol ar gyfer staff. Mae hyn wedi cynnwys darpariaeth allanol, gan gynnwys rhywfaint o gydweithio, er enghraifft gydag ysgolion annibynnol eraill, ond cyfnewid a hyrwyddo arfer dda yn fewnol a wnaed yn bennaf.

Yn gynnar yn ystod y cyfnod clo, roedd llawer o athrawon 'yn gweithio nerth deng ewin i ddysgu' sut i ddefnyddio ystod o lwyfannau a chymwysiadau TGCh. Yn gyffredinol, ceisiodd arweinwyr leihau pryderon staff trwy bennu disgwyliadau cyfyngedig a rhesymol o ran sut gellid disgwyl i staff ddefnyddio technoleg i gynorthwyo dysgu disgyblion.

Lleihaodd un ysgol wersi dwbl o 75 munud i 60 munud er mwyn darparu bwlch byr i staff rhwng pob sesiwn ac i leihau maint yr amser yr oedd disgyblion yn ei dreulio ar y sgrin. Mewn llawer o achosion, mae arweinwyr wedi adolygu disgwyliadau adborth a marcio i helpu ac annog staff i fod yn fwy creadigol yn eu haddysgeg ac yn natur gweithgareddau dysgu ar-lein.

Yn ystod y pandemig, mae arweinwyr o'r farn fod bron yr holl athrawon wedi addasu'u harfer a'u haddysgeg a'u bod wedi ymgyfarwyddo ag ystod o lwyfannau dysgu. Mae un pennaeth yn disgrifio graddau cymorth staff i'w gilydd ac effaith y gwaith hwn fel rhywbeth 'eithriadol', tra bod arweinwyr eraill yn cyfeirio at 'newid llwyr' yn y defnydd o TGCh.

Mewn llawer o ysgolion, mae'r defnydd o dechnoleg wedi esblygu'n gyflym, yn aml yn sgil gwaith tîm addysgu a dysgu neu 'hyrwyddwyr' TGCh yn cynnig hyfforddiant 'brys' ac ystod o gymorth ac arweiniad i gydweithwyr. Gall hyn gynnwys staff yn rhannu recordiadau o wersi llwyddiannus, cynhyrchu gweminarau i hyrwyddo arfer dda, a phostio syniadau ac awgrymiadau defnyddiol i gydweithwyr roi cynnig arnynt. Mewn un ysgol, cynhaliwyd rhaglen eang o sesiynau dysgu proffesiynol 15 munud byr, cyn ysgol yn aml, yn ogystal â sesiynau 'Dydd Mawrth Technoleg' lle mae staff yn cynnig arweiniad ac awgrymiadau ac yn disgrifio senarios dysgu effeithiol i gydweithwyr. Mae ysgol arall yn cynnal cyfarfodydd staff rhithwir yn wythnosol i rannu arfer orau a strategaethau effeithiol ar gyfer gwella ymgysylltiad disgyblion. Yn ogystal â sesiynau briffio dyddiol perthnasol, mae un ysgol wedi neilltuo un prynhawn bob wythnos i ddysgu proffesiynol, yn gysylltiedig yn bennaf â chymwyseddau a medrau digidol a defnyddio llwyfannau, cymwysiadau ac adnoddau penodol.

Mae ychydig o arweinwyr yn adrodd bod staff wedi symud y tu hwnt i fod ag 'ofn technoleg' wrth ddatblygu addysgeg. Mae arweinwyr yn cyfeirio at gydweithio gwell a rhannu adnoddau, yn ogystal â thrwy greu cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio technoleg yn fwy creadigol. Mae llawer o benaethiaid yn adrodd eu bod yn teimlo bod cyfnodau clo wedi gwella agweddau ar addysgu. Er enghraifft, mae llawer o staff wedi datblygu ystod o fedrau a chymwyseddau newydd i addysgu o bell a fydd yn hynod werthfawr yn y tymor canolig a'r tymor hir, ac a fydd yn dod yn agwedd gyffredin ar eu harfer. Mae arweinwyr yn cyfeirio at ystod o fentrau a 'meddwl yn flaengar' ynglŷn â ffyrdd y gall ysgolion 'adeiladu ar' a gwella rhai o'r gweithgareddau diweddar y dylanwadwyd arnynt gan wneud mwy o ddefnydd o TGCh. Mae'r pennaeth mewn un ysgol yn cyfeirio at 'ysgol heb furiau' gan ymhlygu ei bod yn annhebygol y bydd achos yn y dyfodol lle bydd ysgol 'ar gau' oherwydd eira, gan y bydd staff a disgyblion yn troi ar unwaith i ddysgu ar-lein.

Fe wnaeth **Ysgol Westbourne**, sy'n ysgol ddydd ac ysgol breswyl pob oed ym Mhenarth, mewn partneriaeth â choleg chweched dosbarth yn Sydney, benodi cyfarwyddwr TGCh newydd yn Ionawr 2020 i oruchwylio a gwella'r defnydd o TGCh ar draws y ddau ddarparwr. Mae'r pennaeth yn disgrifio'r penodiad fel un 'hollbwysig' i wella cyfleusterau a chapasiti TGCh yr ysgol ac wrth baratoi'r ysgol ar gyfer rhoi dysgu o bell ar waith yn llwyddiannus yn ystod y tri mis cyn y cyfnod clo. Yn dilyn y penodiad hwn, fe wnaeth yr ysgol wella ei mynediad Wi-Fi a darparodd ddyfeisiau newydd i'r holl staff ynghyd â hyfforddiant i'w defnyddio. Un elfen allweddol o'r rhaglen hyfforddi oedd cefnogi cyflwyno gwersi o bell yn rhannol drwy sefydlu sianelau effeithiol i hyrwyddo arfer dda, yn ogystal ag arddangosiadau o arbrofion gwyddonol mewn labordai. Oherwydd y gwaith hwn, mae'r pennaeth o'r farn fod yr ysgol wedi'i pharatoi'n arbennig o dda ar gyfer y cyfnod clo.

## Heriau penodol wrth gyflwyno meysydd o'r cwricwlwm gan ddefnyddio dull cyfunol

Mae pob ysgol wedi wynebu heriau sylweddol wrth sicrhau parhad dysgu mewn pynciau ymarferol fel gwyddoniaeth a thechnoleg, yn ogystal ag mewn meysydd creadigol o'r cwricwlwm. Un ateb cyffredin i'r broblem hon fu addasu cynlluniau gwaith fel bod disgyblion, wrth iddynt weithio gartref, yn cwmpasu agweddau theori'r cwrs yn bennaf ac yn cynnal arbrofion ymarferol pan fyddent yn dychwelyd i'r ysgol.

Mewn llawer o ysgolion, un nodwedd o brotocolau COVID-19 oedd bod disgyblion yn aros mewn swigod, gyda disgyblion uwchradd iau wedi'u cyfyngu'n gyffredin i'w hystafell ddosbarth eu hunain neu barth penodol o fewn yr ysgol. Yn anochel, mae hyn wedi arwain at lai o gyfleoedd i'r grwpiau hyn o ddisgyblion ddefnyddio ystafelloedd arbenigol fel labordai gwyddoniaeth neu weithdai technoleg. Mae penaethiaid yn cyfeirio at enghreifftiau o amserlennu creadigol i oresgyn y materion hyn, fel aildrefnu rhai gwersi er mwyn cynyddu mynediad i ystafelloedd drama neu TGCh dynodedig. Yn yr un modd, mae ysgolion wedi nodi ystafelloedd ymneilltuo addas i greu gofod ychwanegol a hwyluso cyfranogiad disgyblion, tra bod un ysgol wedi llogi'r neuadd bentref leol i gynyddu cyfleoedd ar gyfer gwersi drama.

Yn gyffredinol, mae arweinwyr yn adrodd bod athrawon wedi'i chael yn gymharol hawdd trefnu ychydig o arbrofion gwyddoniaeth sylfaenol ar gyfer disgyblion iau yng nghyfnod allweddol 3. Mae llawer o athrawon wedi defnyddio mannau yn yr awyr agored yn arbennig ar gyfer gweithgareddau addysg gorfforol ac, er enghraifft, i gynnal arbrofion ffiseg cyfnod allweddol 3. Mewn achosion eraill, mae staff wedi recordio arbrofion gwyddonol neu wedi cynhyrchu arddangosiadau fideo mewn technoleg, celf ac addysg gorfforol fel bod disgyblion yn gallu cyflawni'r gweithgareddau perthnasol pan fydd yn gyfleus iddyn nhw.

Mewn meysydd eraill o'r cwricwlwm, mae athrawon, er enghraifft, wedi annog disgyblion iau i gyflawni ystod o weithgareddau fel 'gwneud crepes' gartref neu ddyfeisio atebion fel darparu agweddau ar wyddoniaeth trwy ddosbarthiadau coginio. Mewn amgylchiadau o'r fath, mae staff wedi gorfod ystyried risgiau posibl sy'n gysylltiedig â'r dasg. Yn anochel, mae hyn wedi gosod cyfyngiadau ar ystod a natur y cyfryw dasgau.

Mae pennaeth **Coleg Chweched Dosbarth Caerdydd** yn ymwybodol bod disgyblion, yn gyffredinol, yn cyflawni graddau arbennig o uchel mewn agweddau ymarferol ar fanyleb yr arholiad. Er y bu'n angenrheidiol rhoi mwy o bwyslais ar agweddau theori eleni, roedd y coleg wedi gallu mabwysiadu strategaethau i hwyluso arbrofion ymarferol. Mae'r holl fyfyrwyr wedi'u paru â myfyriwr arall o'u swigen gymdeithasol o chwech o fewn y gymuned breswyl. Fe wnaeth hyn eu galluogi i wisgo feisorau yn hytrach na gorchuddion wyneb yn y labordy. Fe wnaeth y coleg adnabod cyfle i fodelu dull yn seiliedig ar ymchwil sy'n gyffredin mewn prifysgolion, lle byddai myfyrwyr yn gweithredu mewn timau bach i gyflawni eu gwaith. I hwyluso'r dull hwn, lluniwyd rota gan y coleg lle byddai technegwyr ar gael yn ystod y dydd a min mos er mwyn cynyddu mynediad i'r labordai.

Mae ychydig o ysgolion wedi buddsoddi mewn technoleg ac adnoddau newydd i wella'r ddarpariaeth mewn pynciau ymarferol fel gwyddoniaeth, technoleg, a chelf.

Fe wnaeth **Ysgol Haberdashers Trefynwy**, sy'n darparu ar gyfer disgyblion dydd a disgyblion preswyl 11 i 18 oed, brynu delweddwyr manylder uwch sydd wedi galluogi staff i recordio arbrofion neu arddangos tasgau a thechnegau penodol. Gosododd yr ysgolion gamerâu yn y labordai fel bod staff yn gallu symud o gwmpas yn ffilmio arbrofion. Mewn technoleg dylunio, mae staff yn defnyddio effeithiau sgrin werdd i arddangos ac egluro gweithdrefnau a medrau penodol ar gyfer eu rhannu ar 'YouTube'. Yn yr un modd, mewn celf, mae staff wedi cynhyrchu clipiau fideo byr i arddangos technegau penodol.

Mae staff addysg gorfforol wedi trefnu a chynnal gwersi rhithwir byw sy'n seiliedig yn bennaf ar ymarferion hyfforddiant cylchol unigol er mwyn helpu gwella ffitrwydd personol disgyblion. Cred yr arweinwyr fod y dulliau hyn wedi ychwanegu amrywiaeth at ddysgu, wedi helpu ymgysylltu â disgyblion yn llwyddiannus a chyfrannu'n sylweddol at eu cynnydd.

## Mentrau'r cwricwlwm

Yn ystod y llynedd, mae llawer o ysgolion wedi cyflwyno ystod o fentrau'r cwricwlwm i ennyn diddordeb disgyblion, cefnogi'u datblygiad personol a'u lles, a helpu eu paratoi ar gyfer cyfleoedd addysgol yn y dyfodol.

Yng **Ngholeg Crist, Aberhonddu,** sy'n ysgol ddydd ac ysgol breswyl gydaddysgol ar gyfer disgyblion 7 i 18 oed, mae'r rhaglen academaidd wedi'i hategu gan ystod eang o fentrau i ddisgyblion o bob oed a gafodd eu dylunio'n benodol i annog cyfranogiad gweithgar a hyrwyddo lles disgyblion. Roedd y gweithgareddau hyn yn cynnwys:

- gweithdai celfyddydau creadigol ar-lein, gan gynnwys dosbarthiadau meistr gyda pherfformwyr theatr gerdd
- drama radio Blwyddyn 9 yn pontio'r cyfnod clo a dychwelyd i'r ysgol
- gweithdai ffotograffiaeth yn cynnwys ffotograffydd proffesiynol a fu'n gweithio ym Myanmar yn ddiweddar
- rhaglen 'cwricwlwm am oes' wythnosol barhaus o siaradwyr gwadd a gwybodaeth am yrfaoedd i ddisgyblion ym Mlwyddyn 12 a Blwyddyn 13
- cyfres o heriau ffitrwydd wythnosol gyda sesiynau cydamserol yn cynnwys disgyblion preswyl yn fyw, a disgyblion eraill yn cyfranogi o bell
- cystadleuaeth gerddoriaeth ar-lein

Mae'r ysgol wedi rhoi pwyslais arbennig ar gynnal rhaglen reolaidd o gemau a gweithgareddau i gefnogi iechyd a lles disgyblion. Trwy gydol y pandemig, mae'r holl ddisgyblion wedi cael dwy 'sesiwn gemau' bob wythnos. Yn ystod tymor yr hydref ac yn fwy diweddar ers dychwelyd i'r ysgol, mae disgyblion wedi gallu cyfranogi yn yr awyr agored o fewn eu dosbarth neu swigod grŵp. Mae'r ysgol wedi addasu'r rhaglen i ganolbwyntio ar weithgareddau sy'n bodloni protocolau COVID-19 angenrheidiol.

Fe wnaeth **Ysgol St Clare** ym Mhorthcawl, sy'n ysgol ddydd annibynnol i fechgyn a merched o 2 i 18 oed, sefydlu rhaglen ***Inspiring Futures*** i ddisgyblion ym Mlwyddyn 11 a Blwyddyn 13 yn ail hanner tymor yr haf yn ystod y cyfnod clo cyntaf. Mae'r pennaeth yn adrodd bod y rhaglen hon wedi darparu cyfle i'r disgyblion hyn arddangos y medrau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth i fod yn ymgeiswyr llwyddiannus yng ngham nesaf eu taith ddysgu, p'un a yw hynny yn y chweched dosbarth, yn y brifysgol neu ym myd gwaith. Roedd y rhaglen yn cynnwys gweminarau a gyflwynwyd gan arbenigwyr yn eu meysydd. Dilynodd yr holl ddisgyblion fodiwlau gorfodol fel gyrfaoedd, cyfathrebu a chyrsiau blasu pynciau'r chweched dosbarth, ac roeddent yn gallu dewis o ystod o fodiwlau dewisol yn cynnwys gweithgareddau creadigol, arweinyddiaeth, deallusrwydd emosiynol, a menywod mewn arweinyddiaeth. Roedd disgyblion yn derbyn 'micro gymwysterau' yn cydnabod eu hymgysylltiad a'u cyfranogiad ym mhob un o'r modiwlau a'r gweithgareddau hyn.

Yn absenoldeb Gemau Olympaidd Tokyo 2020, hyrwyddodd yr ysgol fenter ***Gemau Olympaidd Cartref*** gyda'r bwriad o ysbrydoli cymunedau ar draws y teulu rhyngwladol hwn o ysgolion. Roedd y rhaglen yn cynnwys gweithgareddau ffitrwydd a medrau cynyddol wedi'u haddasu ar gyfer disgyblion 2 i 18 oed. Roedd y gweithgareddau hyn, y gellir eu cyflawni gartref, yn helpu cyfranogwyr ddatblygu ystod o briodoleddau ffitrwydd corfforol fel gwytnwch a chryfder cyhyrol, cyflymder a stamina, sadrwydd a chydbwysedd, gwytnwch cardiofasgwlaidd yn ogystal â medrau pêl a chydsymud llaw a llygad. I helpu annog disgyblion i wella'u perfformiad, roedd modd cyflawni medalau efydd, arian ac aur ym mhob gweithgaredd trwy gyflawni targed penodol.

## Olrhain cynnydd ac asesu

Mae asesu cynnydd disgyblion yn ystod y cyfnod clo wrth ddatblygu ystod o lwyfannau a dulliau dysgu esblygol wedi bod yn her arbennig i lawer o ysgolion. Mewn llawer o achosion, mae penaethiaid yn adrodd bod staff yn defnyddio ystod o offer asesu i fonitro ansawdd gwaith ar-lein disgyblion. Mae arweinwyr mewn ychydig o ysgolion yn adrodd eu bod wedi parhau i fonitro cynnydd disgyblion yn fanwl trwy gydol y pandemig, er enghraifft defnyddio proses graddau ysgol i gymharu cynnydd a chyrhaeddiad disgyblion â deilliannau rhagamcanol.

Mae arweinwyr yn adrodd bod llawer o athrawon wedi ymgorffori ystod o strategaethau yn eu gwersi ar-lein yn ystod y cyfnod clo ac ers dychwelyd i'r ysgol er mwyn ennyn diddordeb disgyblion a darparu adborth uniongyrchol i gefnogi'r dysgu. Mae'r rhain yn cynnwys sgyrsiau ar-lein 'pwysau isel', cwisiau, tocynnau gadael sesiynau llawn, ystafelloedd ymneilltuo ar gyfer trafodaethau grŵp bach a gweithgareddau asesu cyfoedion. Mae llawer o ysgolion wedi defnyddio offer asesu ffurfiannol ar-lein sy'n cynnwys arolygon ac ymatebion yn seiliedig ar gemau i fonitro dysgu a helpu disgyblion fesur eu cynnydd eu hunain.

Ym Medi 2020, ar ôl y cyfnod clo cychwynnol, cynhaliodd llawer o ysgolion uwchradd brofion cynnydd, er enghraifft, mewn Saesneg a mathemateg. Yn yr un modd, cynhaliodd ychydig o ysgolion cynradd asesiadau meincnod ffurfiol o alluoedd darllen ac ysgrifennu disgyblion a'u medrau a chysyniadau mathemategol. Wedyn, roedd athrawon yn gallu rhoi strategaethau dal i fyny ar waith i fentora a rhoi cymorth i ychydig o ddisgyblion unigol, lle'r oedd angen.

Ers dychwelyd i'r ystafell ddosbarth ar ôl y Pasg, wrth i ddisgyblion ymgyfarwyddo eto ag arferion rheolaidd, mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn mabwysiadu dull graddol o gyflwyno asesu. Mae athrawon yn canolbwyntio'n bennaf ar gyfnerthu dysgu. Maent yn defnyddio asesu ffurfiannol parhaus i werthuso cynnydd, nodi bylchau yn y dysgu y mae angen mynd i'r afael â nhw a rhoi strategaethau cymorth ar waith i fynd i'r afael â'r diffygion hyn.

Mae nifer o ysgolion yn ymgorffori'r Arolwg Agwedd y Disgyblion at eu Hunain a'r Ysgol yn eu rhaglen er mwyn helpu deall rhwystrau posibl rhag dysgu a nodi lle gallai fod angen cymorth. Yn **Ysgol Rougemont**, sy'n ysgol ddydd pob oed yng Nghasnewydd, mae arweinwyr yn adrodd bod yr holl ddisgyblion cynradd wedi ymgymryd â'r asesiad agweddau hwn yn ystod tymor yr hydref ac ychydig cyn y Pasg. Wedyn, cyflwynodd arweinwyr gwmpas rhaglen grŵp anogaeth, a'i addasu'n ddiweddarach, ac addasu darpariaeth cymorth dysgu trwy gynyddu graddau cymorth yn y dosbarth i ystyried y materion a nodwyd drwy'r arolwg.

## Gwerthuso effaith dysgu cyfunol ar gynnydd disgyblion

Mewn llawer o ysgolion, mae arweinwyr yn adrodd bod disgyblion hŷn yng nghyfnod allweddol 4 a'r chweched dosbarth yn hyderus yn gyffredinol ynglŷn â'u cynnydd yn ystod y pandemig. Cred arweinwyr fod y disgyblion hyn wedi derbyn cymorth effeithiol i ddefnyddio TGCh, a'u bod, efallai, yn fwy hunanddibynnol na disgyblion iau. Mae athrawon yn dweud bod y rhan fwyaf o ddisgyblion wedi ymgysylltu'n frwdfrydig ac wedi mabwysiadu agwedd adeiladol at eu gwaith. Mae'n well gan leiafrif o ddisgyblion agweddau penodol ar ddysgu ar-lein gan nad oes llawer i dynnu'u sylw, a gallant ganolbwyntio'n llwyr ar weithgareddau dysgu.

Mewn llawer o ysgolion uwchradd, mae arweinwyr yn adrodd bod athrawon wedi cwblhau cynlluniau gwaith a gynlluniwyd ac wedi cwmpasu manylebau arholiadau yn llawn. Mae ychydig o benaethiaid yn awgrymu bod disgyblion wedi cwmpasu mwy o waith nag y gellid ei ddisgwyl. Awgrymir gan yr arweinwyr hyn mai ysbryd cymunedol cryf yn yr ysgol, effeithlonrwydd cyflwyno, ymgysylltiad disgyblion, aeddfedrwydd academaidd a gwydnwch sydd i gyfrif am hyn, a bod llai o bethau i dynnu'u sylw fel clybiau, chwaraeon a gweithgareddau eraill.

Mae arweinwyr yn awgrymu bod y sefyllfa hon wedi bod yn fwy heriol i ddisgyblion cyfnod allweddol 3 a'r rheiny mewn dosbarthiadau cynradd. Er bod ychydig o ddisgyblion wedi gwneud cynnydd cryf, mae disgyblion eraill wedi gwneud llai o gynnydd na'r disgwyl. Mae arweinwyr o'r farn y gallai hyn fod yn gysylltiedig â natur rhai pynciau, fel disgyblion yn cael anhawster deall cysyniadau mewn mathemateg yn ystod gweithgareddau ar-lein. Oherwydd cynnydd mewn gweithgarwch ar-lein, mae arweinwyr yn cyfeirio hefyd at fod plant iau yn cael problemau gyda'u medrau echddygol manwl, eu llawysgrifen a'u sillafu. Er bod ychydig o blant wedi cael rhai anawsterau, yn enwedig wrth ddatblygu'u ffoneg, mae un pennaeth yn nodi bod cynnydd da wedi'i wneud am fod cyflwyniadau wedi'u recordio, a bod plant yn gallu parhau i ymarfer y medrau hyn. Lle bo angen, mae athrawon yn addasu agweddau ar y rhaglen ffoneg ac yn darparu cymorth mewn grwpiau bach neu gymorth un i un ar-lein ar gyfer y disgyblion hyn.

Er gwaetha'r heriau a nodwyd uchod, mae arweinwyr yn adrodd bod llawer o ddisgyblion wedi gwneud cynnydd cryf â'u medrau darllen gan eu bod wedi cael eu

hannog a'u cefnogi i ddarllen gartref. Mewn llawer o ysgolion, mae staff yn ceisio annog disgyblion i wneud mwy o ddarllen ar-lein, er enghraifft, gan ddefnyddio cynlluniau darllen. Fodd bynnag, mae arweinwyr o'r farn mai 'llyfrau go iawn' sydd yn well gan blant yn gyffredinol, a'u bod yn gwneud mwy o gynnydd gyda'r rheiny.

Ers dychwelyd i'r ystafell ddosbarth, mae athrawon mewn llawer o ysgolion cynradd wedi sylwi ar ddirywiad yn lefelau canolbwyntio ychydig o ddisgyblion, a'u gallu i ganolbwyntio ar dasg benodol. I ryw raddau, mae athrawon yn priodoli hyn i'r cyfleoedd ychwanegol i ddisgyblion gymryd egwyliau cyson a symud o gwmpas wrth weithio gartref. Mae'r pennaeth mewn un ysgol o'r farn ei bod wedi cymryd rhyw dair wythnos i ddisgyblion ddychwelyd yn llwyddiannus i arferion blaenorol. Er mwyn helpu disgyblion i addasu, mae athrawon yn yr ysgol hon wedi ceisio lleihau maint y dysgu ar-lein, heb unrhyw ddysgu ar-lein o gwbl yn yr wythnos gyntaf yn ôl yn yr ysgol.

Ers dychwelyd i'r ystafell ddosbarth ar ôl y Pasg, mae staff yn **Oakleigh House** wedi rhoi pwyslais arbennig ar les plant drwy ailfeithrin cyfeillgarwch a pherthnasoedd, ac ailsefydlu trefniadau, arferion a gweithdrefnau'r ysgol. Mae'r pennaeth yn egluro bod disgyblion Blwyddyn 6 wedi colli ystod o gyfleoedd arwain a mentora, yn ogystal â llawer o 'agweddau dysgu estynedig a chyffrous,' gan gynnwys gweithgareddau chwaraeon a phrosiectau pontio. I wneud yn iawn am hyn, trefnodd yr ysgol i gymryd rhan mewn Eisteddfod ar-lein a dathliadau Dydd Gŵyl Ddewi, ac mae wedi cynllunio rhaglen o weithgareddau ymestyn ar gyfer y disgyblion hyn.

Mae'r rhaglen hon yn cynnwys teithiau 'creu atgof' wythnosol, twrnameintiau chwaraeon hwyl i'r ysgol gyfan a her fenter. Hefyd, bydd disgyblion Blwyddyn 6 yn gallu cyfranogi mewn cyngerdd i'r rhai sy'n gadael ar ddiwedd y flwyddyn, a fydd yn cael ei recordio a'i rhannu gyda rhieni i'w gwylio wrth iddynt fwynhau bocs te prynhawn, wedi'i ddarparu gan arlwywyr yr ysgol.

Mae ychydig o blant wedi cael anhawster gwirioneddol gyda dysgu ar-lein a chyfnodau hir i ffwrdd o'r ysgol, ac wedi anghofio sut i ryngweithio ag eraill. Mae arweinwyr yn adrodd eu bod wedi sylwi ar newid cymeriad, a'i fod wedi arwain at rai materion cymdeithasu. Gall y pryderon hyn gynnwys materion amlach yn ymwneud â chyfeillgarwch ymhlith disgyblion iau y mae'n ymddangos eu bod wedi 'anghofio sut i chwarae gyda'i gilydd'. Gan fod disgyblion yn ôl yn yr ystafell ddosbarth erbyn hyn, mae llawer o ysgolion wedi gweithredu ystod o strategaethau i fynd i'r afael â'r materion hyn, fel gweithgareddau i ddatblygu medrau cyfathrebu disgyblion. Er enghraifft, trefnodd un ysgol 'wythnos gemau iard chwarae' lle'r oedd disgyblion Blwyddyn 13 yn gweithredu fel mentoriaid ac yn arwain y gweithgareddau hyn.

## Nodi bylchau mewn dysgu a mynd i'r afael â nhw

Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae athrawon wrthi'n canolbwyntio ar fonitro perfformiad, atgyfnerthu gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion, ac addasu cynlluniau gwaith a chynlluniau gwersi i fynd i'r afael ag unrhyw fylchau sy'n dod i'r amlwg mewn addysgu a dysgu.

Ers dychwelyd i'r ysgol ar ôl y Pasg, mae **Oakleigh House** wedi addasu ei rhaglen i ddyrannu amser ychwanegol i wyddoniaeth a phynciau ymarferol eraill. Eglurodd y pennaeth fod yr amser a neilltuir i feysydd eraill fel y dyniaethau wedi'i leihau gan fod disgyblion wedi cael llawer o gyfleoedd i ymgymryd â phrosiectau ymchwil yn y maes hwn o'r cwricwlwm yn ystod y cyfnod clo.

Mae staff mewn ysgolion uwchradd yn cydnabod, er bod disgyblion wedi cwmpasu'r rhan fwyaf o destunau yn y maes llafur, bod dyfnder a graddfa ddysgu disgyblion yn 'fregus' yn aml. Adroddodd un pennaeth nad oedd staff wedi adnabod bylchau sylweddol yn y dysgu ond eu bod yn ymwybodol, mewn rhai meysydd, mai dim ond 'gwybodaeth arwynebol' sydd gan ddisgyblion a bod angen ei hatgyfnerthu i sicrhau dealltwriaeth 'ddofn'. Er enghraifft, mewn pynciau fel ffiseg, mae staff yn canolbwyntio ar arbrofion nad oedd modd eu cynnal yn ystod y cyfnod dysgu o bell.

Mewn llawer o ysgolion, mae athrawon wedi nodi lleiafrif o ddisgyblion sydd wedi gwneud llai o gynnydd nag y gellid ei ddisgwyl. Mae'r diffygion hyn yn fwyaf cyffredin mewn pynciau fel mathemateg a gwyddoniaeth, lle nad yw disgyblion efallai wedi deall cysyniadau yn llawn, neu mewn ieithoedd tramor modern lle mae disgyblion wedi cael llai o gyfleoedd i ddatblygu'u medrau llafar. Mae arweinwyr yn cyfeirio at ychydig o ddisgyblion Blwyddyn 11 a 'gollodd rywfaint o fomentwm yn ystod y cyfnod clo estynedig'. Mae athrawon yn cynorthwyo'r disgyblion hyn drwy ddulliau atgyfnerthu amrywiol yn yr ystafell ddosbarth a chymorth 'wyneb yn wyneb'. Yn aml, mae disgyblion wedi awgrymu testunau penodol lle'r oeddent eisiau sesiynau adolygu pellach neu gymorth ychwanegol. Pwysleisiodd un pennaeth mai blaenoriaeth yr ysgol ar gyfer gweddill y flwyddyn yw cwmpasu llai o gynnwys ond atgyfnerthu'r dysgu o ran dyfnder ac ansawdd.

Er mwyn mynd i'r afael â rhai o'r anawsterau a diffygion dysgu y mae disgyblion wedi'u hwynebu mewn agweddau ymarferol, mae arweinwyr yn **Ysgol Howell** wedi rhaglennu diwrnodau trochi pwrpasol ar gyfer disgyblion Blwyddyn 11 mewn pynciau fel celf a thechnoleg ers iddynt ddychwelyd i'r ysgol y tymor hwn. Mae'r pennaeth yn adrodd bod y dull hwn wedi helpu i gyfnerthu ac atgyfnerthu dysgu disgyblion. Ar gyfer disgyblion yn yr ysgol iau, mae staff wedi darparu gwersi addysg gorfforol ychwanegol lle mae'r ffocws yn bennaf ar 'rannu gemau a gweithgareddau' er mwyn helpu cefnogi disgyblion i ailintegreiddio a chymdeithasu.

Mewn ychydig o ysgolion, mae arweinwyr llythrennedd a rhifedd wedi nodi amcanion allweddol dal i fyny, a deilliannau dysgu hanfodol cyn diwedd y flwyddyn. Mae staff wedi mireinio'r cynlluniau gwaith hyn wedyn i sicrhau eu bod yn gyfleoedd addas i fynd i'r afael â'r diffygion hyn mewn medrau.

Yn **Ysgol y Gadeirlan**, nododd athrawon ddiffygion yn ysgrifennu estynedig disgyblion, eu llafaredd a'u gwaith ar y cyd. Er enghraifft, ceir gwendidau mewn ysgrifennu estynedig gan nad yw disgyblion wedi bod yn drafftio ac ailddrafftio eu gwaith. Eglurodd y pennaeth mai un amcan penodol ysgol gyfan yn yr ysgol hon am weddill y flwyddyn yw darparu llawer o gyfleoedd i ddisgyblion siarad a gweithio gyda'i gilydd. Mae pwyslais ar waith prosiect er mwyn ennyn diddordeb disgyblion a'u hannog i weithio gyda'i gilydd a thrafod a chyflwyno'u syniadau ar lafar. I gefnogi'r fenter hon, mae'r pennaeth yn adrodd bod staff wedi cael dysgu proffesiynol yn ddiweddar i'w helpu i roi strategaethau cytûn ar waith.

## Arholiadau cyhoeddus

Gwelodd llawer o ysgolion yn gynnar ei bod yn annhebygol y byddai arholiadau cyhoeddus yn cael eu cynnal fel arfer eleni. Serch hynny, mae arweinwyr yn adrodd eu bod o'r farn fod gan ysgolion gyfrifoldeb i helpu disgyblion baratoi ar gyfer cam nesaf eu haddysg. Mae arweinwyr o'r farn fod hyn yn cynnwys rhyw fath o 'arholiad â mwy yn y fantol' i helpu disgyblion ddatblygu'r medrau a'r hyder angenrheidiol i sefyll arholiadau yn y dyfodol. Mae'r ysgolion hyn wedi sefydlu polisïau a dulliau y cred arweinwyr eu bod yn atgynhyrchu amodau arholiad nodweddiadol, cyn belled ag y bo modd, er mwyn helpu pennu graddau ym mhob pwnc.

Er bod ysgolion wedi mabwysiadu dulliau ychydig yn wahanol i helpu pennu graddau, mae penaethiaid yn adrodd eu bod wedi'u cymeradwyo gan y byrddau arholi perthnasol yng Nghymru a Lloegr. Yn gyffredinol, mae'r trefniadau hyn yn cynnwys cymysgedd o asesiadau a gwaith cwrs parhaus a all helpu creu portffolio o dystiolaeth i gefnogi sicrhau graddau.

Dyrannodd arweinwyr yng **Ngholeg Crist, Aberhonddu** ddwy wythnos ar wahân i asesiadau mewnol ffurfiol i gefnogi'r dystiolaeth a gaffaelwyd trwy asesiadau athrawon parhaus. Gwnaeth yr ysgol benderfyniad ymwybodol i beidio â chynnal unrhyw asesiadau cyn y Pasg, ond i ganolbwyntio ar les ac ymgysylltiad disgyblion yn ogystal â chyfnerthu dysgu cynharach a mynd i'r afael â diffygion lle'r oeddent i'w gweld. Cynhaliwyd yr asesiadau ffurfiol cyntaf yn wythnos gyntaf mis Mai, gyda swp pellach o asesiadau bythefnos yn hwyrach gan ddefnyddio papurau ymarfer a ddarparwyd gan fyrddau arholi. Mae cynnwys yr asesiadau hyn wedi'i leihau a dim ond y meysydd hynny o'r maes llafur yr ymdriniwyd â nhw yn y dosbarth y maent yn eu cynnwys. Mae'r pennaeth yn haeru bod y dull hwn yn teimlo'n eithaf normal i ddisgyblion, ac mae'n pwysleisio bod yr ysgol o'r farn bod ganddi 'rwymedigaeth i baratoi'r holl ddisgyblion ar gyfer cam nesaf eu haddysg'. Mae hyn yn cynnwys rhyw fath o 'arholiad â mwy yn y fantol' i helpu disgyblion ddatblygu'r medrau a'r hyder angenrheidiol i sefyll arholiadau yn y dyfodol.

Mae **Ysgol Howell** wedi rhoi dull systematig o asesu ar waith i gefnogi proses gyfrifo Graddau Wedi'u Pennu gan Ganolfan (CBAC) a Graddau Asesedig Athrawon (Ofqual). Mae'r pennaeth yn adrodd bod yr ysgol, ers mis Ionawr, wedi bod yn cynnal asesiadau byr a mynych ar gyfer disgyblion Blwyddyn 11 a Blwyddyn 13 i gefnogi'u dysgu ac i lywio graddau asesedig athrawon. Yn fwy diweddar, trefnodd yr ysgol gyfnod asesu pythefnos ar gyfer disgyblion Blwyddyn 11.

I baratoi ar gyfer y rhaglen hon o asesiadau, eglurodd y pennaeth fod yr ysgol wedi darparu dogfennau briffio ac ymatebion ffurfiol i gwestiynau cyffredin, ac wedi trefnu cyfarfodydd ar-lein i roi gwybodaeth i ddisgyblion a'u rhieni, ac egluro'r broses iddynt. O ganlyniad, barn y pennaeth yw bod gan rieni a disgyblion ddealltwriaeth sicr a hyder yn null asesu'r ysgol. Mae'r pennaeth yn adrodd bod hyn wedi helpu staff i reoli teimlad naturiol o bryder wrth wynebu sefyllfa newydd sydd wedi cael gymaint o effaith ar ddyheadau disgyblion a'u huchelgeisiau i'r dyfodol.

Er mwyn helpu sicrhau trylwyrder a hyder yn y broses, mae disgyblion Blwyddyn 11 a Blwyddyn 13 yn cael eu monitro gan gamerâu a microffonau wrth gwblhau'r asesiadau ar-lein. Mae'r pennaeth yn egluro bod yr asesiadau hyn wedi'u trefnu i atgynhyrchu amodau arholiad cyn belled ag y bo modd, gan gynnwys lwfansau amser ychwanegol i rai ymgeiswyr. Yn ogystal, mae gan yr ysgol oruchwylwyr arholiadau allanol wedi'u hyfforddi i fonitro a goruchwylio'r broses asesu ar-lein. Yn yr ail rownd o asesiadau a gynhaliwyd ym mis Mawrth, addasodd yr ysgol brosesau, er enghraifft defnyddio sganwyr a ffonau symudol i ddychwelyd papurau profion, gyda bron yr holl farcio'n cael ei wneud ar-lein.

Mae arweinwyr yn Ysgol Haberdashers Trefynwy 'r pennaeth yn adrodd bod athrawon yn defnyddio'r asesiadau ffurfiol diweddaraf yn ogystal â rhaglen barhaus o asesiadau yn y dosbarth i bennu graddau yn unol â gofynion byrddau arholi perthnasol yng Nghymru a Lloegr. Mae arweinwyr yn haeru bod y broses hon yn un feichus a llawn straen i staff. Gan mai arweinwyr pwnc sy'n nodi agweddau ar y cwrs y maent yn dymuno'u hasesu, mae'r uwch dîm arwain yn monitro gofynion i gydbwyso'r asesiadau'n briodol ac i osgoi rhoi pwysau gormodol ar staff a disgyblion. Hefyd, mae'r ysgol wedi trefnu set ffurfiol o 'arholiadau ffug' ar gyfer disgyblion Blwyddyn 11 yn syth ar ôl y Pasg gan fod y staff o'r farn ei bod yn bwysig bod y disgyblion hyn yn cael rhywfaint o brofiad o 'arholiadau ffurfiol' cyn mynd i'r afael ag arholiadau Safon Uwch ar ddiwedd y chweched dosbarth. Mae 'arholiadau ffug' Blwyddyn 13 wedi'u gwasgaru ar ffurf nifer o asesiadau awr o hyd ar agweddau penodol ar y maes llafur.

Yn Ionawr 2021, rhoddodd arweinwyr yng **Ngholeg Chweched Dosbarth Caerdydd** esboniad cychwynnol i ddisgyblion o strategaeth asesu'r gwanwyn, a sut byddai hyn yn bodloni protocolau sicrhau ansawdd Cymwysterau Cymru. Roedd y ddogfen hon yn egluro diben asesiadau, a fyddai'n cael eu cynnal yn ystod tri chyfnod penodol yn nhymor y gwanwyn, i gynhyrchu 'tystiolaeth glir, wiriadwy o allu a lefel cyrhaeddiad disgyblion ym mhob un o'u pynciau'. Roedd hefyd yn amlinellu sut roedd y coleg yn bwriadu paratoi disgyblion ar gyfer y tebygolrwydd o asesiadau yn yr ysgol, ac yn egluro natur, cwmpas a fformat yr asesiadau hyn yn ogystal â gweithdrefnau goruchwylio.

Hefyd, pwysleisiodd y cylchlythyr bwysigrwydd yr holl ddisgyblion yn parhau'n gwbl ymgysylltiedig yn eu dysgu gan y byddai unrhyw radd a oedd yn cael ei chyflwyno gan y coleg yn asesiad holistaidd o berfformiad academaidd. Mewn cylchlythyrau ychwanegol yn ystod tymor y gwanwyn, darparwyd mwy o fanylion am y trefniadau hyn, er enghraifft, egluro sut byddai graddau UG/Safon Uwch a graddau IGCSE yn cael eu dyfarnu. Mae arweinwyr yn adrodd bod y dull hwn wedi bod yn llwyddiannus o ran helpu myfyrwyr i ganolbwyntio ar eu gwaith a theimlo'n hyderus ynglŷn â chyflawni'u huchelgeisiau yn y dyfodol.

Yn gyffredinol, mae penaethiaid yn adrodd bod disgyblion yn deall sut y bydd y broses o ddyfarnu graddau TGAU a Safon Uwch yn cael ei phennu, a chredant fod llawer o ddisgyblion yn hyderus y byddant yn cyflawni'r graddau sy'n cyfateb i'w galluoedd, a'u bod wedi'u paratoi'n dda ar gyfer 'symud ymlaen i'r cam nesaf yn eu haddysg'. Mae bron yr holl arweinwyr yn disgwyl i ddeilliannau fod mor uchel ag y maent fel arfer.

Mae penaethiaid yn pwysleisio hefyd yr heriau posibl y bydd ysgolion yn eu hwynebu yn 2022 os bydd arholiadau Safon Uwch yn cael eu cynnal fel arfer. Er enghraifft, mae disgyblion presennol Blwyddyn 12 eisoes wedi dioddef dwy flynedd o addysg amharedig ac nid ydynt wedi cael cyfleoedd i gael profiad o arholiadau TGAU ffurfiol. Mae arweinwyr yn mynegi pryderon y gallai hyn effeithio ar baratoadau a hyder disgyblion wrth iddynt fynd i'r afael â'r arholiadau hyn.

## Heriau y mae dysgu ar-lein yn eu creu i grwpiau penodol o ddysgwyr

### Dysgwyr agored i niwed

Yn ystod y cyfnod clo, gwahoddodd llawer o ysgolion gymaint o ddisgyblion ag y bo modd o fewn paramedrau canllawiau COVID-19 i barhau i fynychu'r ysgol. Yn ychwanegol at blant gweithwyr allweddol, roedd y disgyblion hyn yn cael eu nodi fel arfer fel rhai mwy agored i niwed neu'n llai ymgysylltiedig â'u dysgu. Yn gyffredinol, disgyblion mewn dosbarthiadau cynradd neu gyfnod allweddol 3 oedd y rhain. Yn aml, roeddent yn mynychu ar rota am rhwng un diwrnod a thridiau'r wythnos er mwyn peidio â mynd uwchlaw'r capasiti. Mae penaethiaid yn adrodd bod rhieni yn deall ac yn gwerthfawrogi'r fenter hon a oedd, mewn llawer o achosion, yn cyfrannu'n sylweddol at les a deilliannau gwell i ddisgyblion.

### Heriau yn gysylltiedig ag oed

Yn ystod cyfnodau cynnar y cyfnod clo, roedd athrawon yn deall bod disgyblion iau mewn ysgolion cynradd yn dibynnu'n drymach o lawer ar gymorth gan rieni, a bod rhai disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael trafferth cadw ar dasg neu drefnu eu gwaith, efallai. Mewn llawer o achosion, mae rhieni disgyblion mewn ysgolion annibynnol yn cynnig llawer o gymorth un-i-un i'w plant, ond nid yw hyn yn bosibl bob tro, yn enwedig pan fydd y ddau riant yn gweithio. Ymatebodd llawer o ysgolion i'r sefyllfa hon drwy ddefnyddio platfformau lle y gallai staff recordio gwersi a storio adnoddau, er mwyn i rieni allu gweithio â'u plant i gefnogi eu dysgu gyda'r nos neu ba bryd bynnag yr oedd yn gyfleus.

Mewn rhai achosion, adroddodd arweinwyr y bu anawsterau i deuluoedd, er enghraifft lle mae'r ddau riant yn gweithio gartref. Maent yn esbonio, oni bai y gall rhieni helpu eu plant i gwblhau eu gwaith, bydd y plant yn aml yn brysio ac yn cwblhau'r dasg yn rhy gyflym heb ddigon o ofal a sylw. O ganlyniad, mae rhieni mewn sawl ysgol wedi awgrymu y dylai ysgolion ddarparu mwy o wersi cydamserol byw.

Yn gyffredinol, bu athrawon mewn dosbarthiadau cynradd yn wyliadwrus o ran ffrydio gwersi cydamserol yn fyw. Mae'r athrawon hyn yn cydnabod bod angen taro cydbwysedd addas o ddysgu cydamserol ac anghydamserol i ddisgyblion iau, yn rhannol er mwyn rheoli faint o amser sy'n cael ei dreulio o flaen sgrin. Yn yr amgylchiadau hyn, mae arweinwyr wedi parhau i esblygu eu hymagwedd tuag at addysgu a dysgu ar-lein, yn seiliedig ar asesiad parhaus athrawon o brofiadau a chynnydd disgyblion. Mewn llawer o achosion, mae hyn wedi cynnwys defnyddio ystafelloedd trafod, lle gall disgyblion neu rieni y mae angen cymorth ychwanegol arnynt gysylltu â staff addysgu i gael cymorth ac arweiniad.

Mae un dull wedi cynnwys staff yn cysylltu â rhieni i'w helpu i werthfawrogi'r hyn sydd ei angen â thasgau penodol, ac ansawdd a maint y gwaith sydd ei angen. Dywed

arweinwyr fod y dull hwn yn cyfrannu at fwy o ymgysylltiad a chymorth gan rieni i'w plant. Mewn ychydig o ysgolion, mae rhieni'n ymuno â gwersi ar-lein neu sesiynau ailgydio dosbarthiadau er mwyn iddynt allu helpu eu plant, yn enwedig y rhai y mae angen cymorth ychwanegol arnynt â'u gwaith. Mae arweinwyr yn credu y bu'r ymglymiad hwn yn arbennig o fuddiol o ran helpu rhieni i ddeall sut mae plant yn dysgu a'r hyn y gellir disgwyl iddynt ei gyflawni, a sut gall rhieni gefnogi dysgu eu plant. Dywed un pennaeth fod llawer o rieni'n bryderus i ddechrau o ran sut byddai eu plant yn ymdopi â dysgu ar-lein, ac roeddent am gynnig y gefnogaeth angenrheidiol iddynt. Yn raddol, mae'r rhieni hyn wedi sylweddoli ei bod yr un mor bwysig annog plant o Flwyddyn 3 ymlaen i ddatblygu'r medrau i ddysgu'n annibynnol.

Yn ystod yr ail gyfnod clo, sefydlodd **Ysgol y Gadeirlan** raglen ddyddiol yn yr adran gynradd a oedd yn cynnwys dwy sesiwn ailgydio fyw bob dydd. Roedd y cyntaf yn para 20 munud, pan fyddai'r athrawon yn gosod y cyd-destun ar gyfer dysgu a chynllun ar gyfer y diwrnod, ynghyd â rhai gweithgareddau hwyliog fel gwisgo hetiau, gemau gwirion, diwrnod enfys, *'Freaky Friday'* a dangos eich anifail anwes i helpu i feithrin ysbryd cymunedol. Dilynwyd hyn gan bedair gwers wedi'u recordio bob dydd, a oedd yn canolbwyntio ar Saesneg a mathemateg yn y bore, a phynciau eraill fel y dyniaethau, drama neu gerddoriaeth yn y prynhawn. Trwy gydol y dydd, roedd disgyblion yn gallu cysylltu â'u hathrawon ar-lein drwy ddefnyddio cyfleuster sgwrsio os oedd angen cymorth neu gefnogaeth ychwanegol arnynt ac, ar ddiwedd y prynhawn, roedd cyfleoedd am sesiwn dorfol neu i adolygu dysgu. Barnodd arweinwyr fod yr ymagwedd hon yn llwyddiannus, gyda dros 90% o ddisgyblion yn ymgysylltu'n gynhyrchiol.

Ar ôl tair wythnos, cyflwynodd yr ysgol fwy o wersi Saesneg a mathemateg cydamserol fyw i ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2, yr oedd staff o'r farn eu bod yn gweithio'n dda ac a oedd yn boblogaidd â'r rhieni. Dywed y pennaeth fod y dull esblygol hwn wedi arwain at ddisgyblion mwy ymgysylltiedig, tra bod staff yn gallu monitro eu cynnydd a rhoi adborth yn fwy effeithiol. Fel rhan o esblygiad parhaus, roedd tua thri chwarter y gwersi'n gydamserol erbyn diwedd y cyfnod clo.

Cydnabu'r staff fod yn well gan ychydig iawn o ddisgyblion wersi wedi'u recordio, gan y gallant weithio'n arafach yn eu hamser eu hunain, ac nad oeddent yn teimlo'n fregus oherwydd eu cynnydd arafach. Er mwyn ymateb i geisiadau gan rieni, dyrannodd yr ysgol gynorthwywyr addysgu i gynorthwyo'r disgyblion hyn â'u gwaith ar-lein.

## Disgyblion dramor

Dywed llawer o arweinwyr fod cynnal parhad dysgu i letywyr o dramor yn achosi heriau sylweddol. Mae hyn yn arbennig o wir o ran y gofynion cwarantin i ddisgyblion sy'n dychwelyd i'r Deyrnas Unedig, ond hefyd darparu llety a rhaglen o weithgareddau i'r rhai sydd wedi aros yma drwy gydol y flwyddyn. Mae ysgolion â lletywyr o dramor wedi rhoi ystod o strategaethau ar waith, gan gynnwys addasu'r diwrnod ysgol a gweithgareddau ymestyn i gefnogi'r disgyblion hyn pan fydd rhaid iddynt fod dan gwarantin.

Dywed llawer o ysgolion na ddychwelodd ychydig o letywyr o dramor i'r ysgol i ailgydio yn eu haddysg ym mis Medi 2020 oherwydd pryderon ynghylch lefel yr

heintiadau COVID-19 yn y Deyrnas Unedig. Mewn rhai achosion, gadawodd y disgyblion hyn yr ysgol, ond mae ychydig ohonynt wedi parhau i ddysgu ar-lein ar hyd y flwyddyn. Lle y dychwelodd disgyblion gartref cyn y Nadolig, dechreuasant tymor yr haf dan gwarantin yn eu tai llety, ond roeddent yn gallu manteisio ar yr holl ddysgu ar-lein.

Ym mis Medi 2020, pan ddychwelodd lletywyr dramor i **Ysgol Westbourne**, cawsant eu rhoi dan gwarantin am bythefnos mewn canolfan gweithgareddau awyr agored leol. Yn ystod y cyfnod hwn, dilynodd disgyblion raglen ymsefydlu arwahanol a oedd yn cynnwys gwersi yn y bore a gweithgareddau hamdden yn y prynhawn.

Wrth baratoi i ailagor ym mis Medi 2020 ar ôl y cyfnod clo cyntaf, ystyriodd arweinwyr yng **Ngholeg Chweched Dosbarth Caerdydd** ystod o senarios, a oedd yn cynnwys dysgwyr yn methu dychwelyd i'r Deyrnas Unedig a'r posibilrwydd o 'ail don' o'r feirws. Trwy weithio o 'ar agor yn llawn – busnes yn ôl yr arfer' i 'ar gau'n llawn – neb ar y safle', nododd arweinwyr saith cam gweithredu a oedd yn adlewyrchu natur darpariaeth lety yn y coleg. Dywed y pennaeth fod hyn wedi darparu eglurder i'r gymuned ac wedi sicrhau y gallai arweinwyr ymateb yn gyflym i amgylchiadau cyfnewidiol, fel cyfnod clo'r cyfnod atal byr, wrth sicrhau diogelwch disgyblion a staff, a sicrhau parhad dysgu.

Yn ystod tymor y gwanwyn 2021, darparodd un ysgol amserlen lawn o wersi byw, ond gwnaeth sawl newid i'r amserlen, fel symud rhai gwersi yn y prynhawn ymlaen i amser cinio i'w gwneud yn fwy cyfleus i fyfyrwyr rhyngwladol a oedd gartref o hyd mewn cylchfaoedd amser gwahanol. Hefyd, recordiodd staff rai gwersi, neu eu recordio ymlaen llaw, er mwyn i ddisgyblion allu manteisio ar y deunydd hwn ac ymgymryd â'r gwaith pan roedd yn fwyaf cyfleus iddynt.

Er gwaethaf yr addasiadau a'r mentrau hyn, mae arweinwyr yn cydnabod y bu disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol (SIY) dan anfantais i ryw raddau. Er enghraifft, nid yw rhai o'r disgyblion hyn wedi deall agweddau ar iaith yn llawn bob tro yn ystod gwersi wedi'u ffrydio, ac maent yn aml yn amharod gofyn am eglurhad neu gymorth. Pan fydd disgyblion 'yn y dosbarth' mewn gwirionedd, mae'n haws i athrawon werthfawrogi camddealltwriaeth a chamsyniadau posibl wrth fonitro eu gwaith yn barhaus.

Mewn ychydig o achosion, mae bron pob un o'r disgyblion dramor wedi aros mewn llety preswyl drwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys gwyliau'r Nadolig a'r Pasg, yn hytrach na dychwelyd i'r gwledydd cartref. Ar hyn o bryd, mae arweinwyr yn y sector annibynnol yn cynllunio ar gyfer amgylchiadau anrhagweladwy yn ddiweddarach y flwyddyn hon, yn amodol ar gynnydd o ran mynd i'r afael â'r pandemig.

Mae pennaeth **Coleg Chweched Dosbarth Caerdydd** yn disgwyl y bydd y rhan fwyaf o fyfyrwyr Blwyddyn 12 yn aros yng Nghaerdydd ar ddiwedd tymor yr haf. Mae'r coleg yn datblygu pecyn o gyrsiau ymestyn wedi'u hardystio, fel cyrsiau paratoi ar gyfer y brifysgol i fyfyrwyr Blwyddyn 11, Blwyddyn 12 a Blwyddyn 13. Mae hyn yn adeiladu ar y rhaglen a gynigiwyd i fyfyrwyr yr haf diwethaf, er enghraifft, lle cafodd dysgwyr Blwyddyn 13 arweiniad a dilyn ystod o gyrsiau wedi'u seilio ar fedrau, a oedd yn cynnwys modiwlau ymchwil a chyflwyniadau i'w helpu i baratoi ar gyfer y brifysgol ym mis Medi. Dywed y pennaeth mai'r adborth gan sefydliadau addysg uwch oedd y bu'r cyrsiau hyn yn fuddiol dros ben i'r myfyrwyr. Yn ystod y cyfnod hwnnw, dilynodd dysgwyr ym Mlwyddyn 11 gyrsiau i baratoi ar gyfer eu hastudiaethau Safon Uwch, tra yr ymgymerodd dysgwyr ym Mlwyddyn 12 â rhaglen UCAS helaeth a oedd yn cynnwys profiad gwaith ac arweiniad gan siaradwyr ymweliadol.

Gan ragweld anawsterau posibl a allai atal lletywyr dramor rhag dychwelyd i'r Deyrnas Unedig ym mis Medi, mae arweinwyr yng Ngholeg Chweched Dosbarth Caerdydd wedi llunio amserlenni posibl ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf. Lluniwyd y dull hwn i sicrhau darpariaeth gyffelyb a darparu ar gyfer disgyblion sydd gartref o hyd mewn cylchfaoedd amser gwahanol. Mae'r cynlluniau hyn yn cynnwys newidiadau i'r diwrnod ysgol a chymysgedd amrywiol o ddysgu cydamserol ac anghydamserol i fodloni a chefnogi mynediad i fyfyrwyr mewn cylchfaoedd amser rhyngwladol gwahanol, yn amodol ar raddau'r heriau mewn rhannau penodol o'r byd.

## Myfyrdodau ar gynnydd yn ystod y flwyddyn ddiweddaf a dulliau dysgu sy'n dod i'r amlwg

Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn cyfeirio at agweddau esblygol ar ddarpariaeth y byddant yn eu cynnal neu'n eu haddasu yn y dyfodol. Dywed penaethiaid y bu'r flwyddyn ddiwethaf yn 'gyfle gwerthfawr i ni ddysgu amdanon ni'n hunain fel ysgol', a chynnal ac adeiladu ar ddulliau, strategaethau a medrau dysgu penodol.

Yn gyffredinol, mae athrawon yn gwerthfawrogi'r defnydd o TGCh i roi adborth i ddisgyblion ar ansawdd eu gwaith ar unwaith, yn ogystal â chynnig cymorth ymyrraeth targedig. Yn yr un modd, mae arweinwyr yn credu bod llawer o ddisgyblion wedi datblygu medrau a chymwyseddau gwell, fel y gallu i drefnu eu hunain a rheoli eu gwaith yn fwy effeithlon.

Mae rhai ysgolion yn ystyried newidiadau i'r ddarpariaeth bresennol a threfniadau amserlennu. Mae un ysgol yn bwriadu mabwysiadu dull trochi 'ychydig bach yn aml', efallai drwy gynnwys tair sesiwn fer o Saesneg bob dydd i rai dosbarthiadau cynradd. Mae arweinwyr o'r farn y bydd dull tebyg yn helpu i fynd i'r afael â diffygion dysgu posibl ac yn atgyfnerthu dysgu'n fwy effeithiol.

Wrth baratoi ar gyfer ‘bywyd ar ôl COVID’, mae ychydig o benaethiaid wedi myfyrio ar y profiadau dros yr ychydig fisoedd diwethaf, ac wedi ystyried sut y gellir gwella agweddau penodol ar fywyd ysgol. Er enghraifft, mae pennaeth **Ysgol y Gadeirlan** yn cydnabod y bu llawer o ddisgyblion a staff yn brysur dros ben drwy gydol y dydd yn y gorffennol, yn rhannol oherwydd ystod eang o glybiau a gweithgareddau allgyrsiol. Er bod yr ysgol yn ailgydio mewn llawer o’r gweithgareddau hyn yn raddol, mae’r pennaeth yn credu y gallai fod yn fuddiol addasu’r rhaglen i ryw raddau i gynnig mwy o gyfleoedd ac amser i ddisgyblion a staff ymlacio.

Mae’r pennaeth hefyd yn cydnabod y bu buddion sylweddol i ddisgyblion iau ym Mlwyddyn 7 a Blwyddyn 8 drwy aros yn eu hystafell ddosbarth eu hunain oherwydd y protocolau sydd ar waith ar hyn o bryd. Fel rhan o fenter i gryfhau trefniadau pontio’r ysgol o’r adran gynradd i’r adran uwchradd, mae’n ystyried dewisiadau amrywiol i leihau symud o gwmpas yr ysgol, efallai â llai o athrawon i ddisgyblion yn y grwpiau blwyddyn hyn.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae’r pandemig wedi peri heriau sylweddol i ‘weithrediad busnes’ llawer o ysgolion annibynnol, yn enwedig o ran dargadw a recriwtio disgyblion. Dywed penaethiaid fod problemau posibl yn y farchnad leol oherwydd effaith ariannol cyfnodau clo ar lawer o deuluoedd. Hefyd, mae llawer o ansicrwydd ynghylch sefyllfa’r pandemig ledled y byd a’r gofynion cwarantin posibl.

Dywed ychydig o benaethiaid y bu cynnal y rhaglen recriwtio a derbyniadau ar-lein yn arbennig o lwyddiannus. Maent yn awgrymu bod y rhaglen frechu lwyddiannus wedi rhoi hyder i lawer o ddisgyblion rhyngwladol, ac yn cyfeirio at nifer gynyddol o ymholiadau o Ewrop, gan gynnwys Ffrainc a’r Almaen.

## Atodiad 1: Sail y dystiolaeth

Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar sut mae ysgolion annibynnol prif ffrwd wedi gwerthuso a mireinio ymagweddau tuag at ddysgu cyfunol. Mae'n ystyried y prosesau monitro a ddefnyddiwyd gan ysgolion i fyfyrio ar eu darpariaeth dysgu cyfunol, yr heriau maent wedi'u hwynebu, a'r newidiadau a wnaed ganddynt.

Mae'r adroddiad yn crynhoi canfyddiadau galwadau ffôn ymgysylltu a gynhaliwyd ag 10 o ysgolion annibynnol prif ffrwd rhwng diwedd mis Ebrill a hanner cyntaf mis Mai 2021. Mae'r adroddiad hefyd yn defnyddio tystiolaeth a gasglwyd ar ôl rhaglen gynharach Estyn o alwadau ymgysylltu a chyfathrebiadau cysylltiedig, fel cyfarfodydd rhanddeiliaid. Mae'r adroddiad hwn wedi'i seilio ar y wybodaeth a drafodwyd yn ystod sgyrsiau ffôn â phenaethiaid ac uwch arweinwyr yr ysgolion sydd wedi'u rhestru isod:

- Coleg Chweched Dosbarth Caerdydd
- Ysgol y Gadeirlan, Caerdydd
- Coleg Crist, Aberhonddu
- Ysgol Haberdashers Trefynwy
- Ysgol Howell, Caerdydd
- Oakleigh House, Abertawe
- One School Global UK, Abertawe
- Ysgol Rougemont, Casnewydd
- Ysgol St Clare, Porthcawl
- Ysgol Westbourne, Penarth

## Atodiad 2: Prociau i ysgolion annibynnol prif ffrwd eu hystyried wrth fyfyrio ar ddysgu o bell a'i fireinio

### Addysgu a dysgu

| | | |
|---|---|---|
| 1. Beth yw ein heriau mwyaf a sut ydym yn eu goresgyn? | 2. Sut ydym yn gwybod bod ein disgyblion yn ddiogel ar-lein, a pha fesurau sydd waith i gadw dyfeisiau disgyblion yn ddiogel? | 3. Pa drefniadau a chymorth rydym yn eu cynnig i helpu i gynnal ymgysylltiad rhieni â dysgu eu plant? |
| 4. Sut ydym yn darparu addysgu a dysgu o ansawdd uchel i bob grŵp o ddisgyblion yn ystod cyfnodau o ddysgu o bell? (*Arlwy'r cwricwlwm – cryfderau/ cyfyngiadau*) | 5. Sut mae ein hymagwedd tuag at ddysgu o bell wedi newid dros amser? (*Rhesymau am hyn a'r broses newid*) | 6. Beth yw'r heriau yn ein hysgol o ran cyflwyno gwersi byw yn ddiogel ac yn effeithiol?<br><br>Lle'r ydym yn cynnig gwersi byw, sut ydym yn rhoi adborth i ddisgyblion a ni'n hunain? |

### Prosesau monitro

| | | | |
|---|---|---|---|
| 7. Pa mor dda rydym yn monitro darpariaeth ar gyfer addysgu a dysgu, gan gynnwys ymgysylltiad disgyblion yn ystod gwersi o bell? Sut mae'r broses fonitro hon wedi esblygu dros amser? | 8. Sut ydym yn datblygu ac yn monitro medrau dysgu annibynnol a medrau dysgu i ddysgu disgyblion wrth iddynt gymryd rhan mewn dysgu o bell? | 9. Sut ydym yn sicrhau bod disgyblion yn ymgysylltu â chyfoedion yn ystod profiadau dysgu o bell? | 10. Sut ydym yn ceisio barn rhanddeiliaid, gan gynnwys rhieni a disgyblion, ynghylch y ddarpariaeth a wneir ar gyfer dysgu?<br><br>Beth ydym yn ei ddysgu o hyd a sut ydym yn defnyddio'r wybodaeth hon? |

**Cefnogi arfer broffesiynol**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 11. Sut ydym yn cynorthwyo staff addysgu i reoli eu llwyth gwaith i gyflwyno darpariaeth ddysgu aml-moddol a mwy o ddysgu o bell – gan gynnwys gweithgareddau ar y safle, ar-lein a rhai nad ydynt yn ddigidol? | 12. Sut mae ein staff addysgu a chymorth lles yn cael eu defnyddio i fanteisio i'r eithaf ar effaith eu gwaith? | 13. Pa mor dda mae ein staff addysgu yn cydweithio i ddarparu profiadau dysgu o bell? Sut ydym yn gwybod hynny? | 14. A ydym wedi elwa ar rannu arfer effeithiol â darparwyr eraill? A oes gennym arfer a rannwyd gennym neu y credwn y byddai'n fuddiol i ddarparwyr eraill? | 15. Sut ydym wedi addasu dysgu proffesiynol yn ystod y cyfnod hwn?<br><br>A ydym wedi nodi gofynion penodol ar gyfer dysgu proffesiynol a darpariaeth dysgu o bell? Os ydym, beth ydynt a sut ydym wedi mynd i'r afael â'r angen hwn? |

## Cyfeiriadau

Education Endowment Foundation (2020) *The EEF guide to supporting school planning: A tiered approach to 2021*. Llundain: Education Endowment Foundation. [Ar-lein]. Ar gael yn: https://educationendowmentfoundation.org.uk/public/files/Publications/Covid-19_Resources/The_EEF_guide_to_supporting_school_planning_-_A_tiered_approach_to_2021.pdf [Cyrchwyd 21 Mehefin 2021]

Estyn (2020) *Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru 2019–2020*. Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael yn: https://www.estyn.llyw.cymru/sites/www.estyn.gov.wales/files/2020-12/Adroddiad%20Blynyddol%20Estyn%202019-2020_Adroddiad%20llawn_0.pdf [Cyrchwyd 21 Mehefin 2021]